

Adroddiad Ôl Ymgynghoriad

Ysgol Gynradd Lansdowne Road - Gorchymyn Traffig Arbrofol

Rhif Prosiect: CO19062

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynigion cynllun uchod rhwng 4 a 27 Gorffennaf 2019, er bod unrhyw ohebiaeth a ddaeth i law yn fuan ar ôl y dyddiad cau yn dal i gael ei chynnwys fel rhan o'r adroddiad hwn. Pwrpas yr ymgynghoriad oedd cael gwybodaeth gan y gymuned leol er mwyn gwella'r cynllun ac, os yn bosibl, mynd i'r afael ag unrhyw bryderon lleol.

O'r oddeutu 50 eiddo yr ymgynghorwyd â hwy a'r 4 hysbysiad safle oedd wedi'u harddangos ar y safle, derbyniwyd 3 ymateb unigol, mae'r rhain wedi'u crynhoi fel â ganlyn:

- 3 - Cefnogi'r cynnig
- 2 - Gwrthwynebu'r cynnig
- 1 – Ddim yn cefnogi nac yn gwrthwynebu'r cynnig

Dangosir y pryderon a'r sylwadau mewn *italig* isod, ynghyd ag ymateb y Cyngor.

Argymhelliad

O ran yr isod, cynigir **symud ymlaen** gyda'r cynnig yn amodol ar y cyllid sydd ar gael. Byddai'r TTRO ar waith am gyfanswm o 18 mis ac ond yn gweithredu yn ystod tymor ysgol fel rhan o gynllun arbrofol. Bydd y TTRO yn gwahardd cerbydau rhag mynd i mewn neu yrru yn Norfolk Street rhwng **8:30 am - 9.15am** a **2.45pm - 3.45pm**, o **ddydd Llun i ddydd Gwener**. Mae hyn er mwyn hwyluso diogelwch disgyblion, rhieni a gofalwyr y tu allan i Ysgol Gynradd Lansdowne ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol.

Isod ceir sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori yn gwrthwynebu'r cynnig:

Sylw - Mae'r Cynllun yn ymddangos yn afresymol

"Mae eich cynnig yn nodi bod cerbydau wedi'u gwahardd rhag mynd i mewn neu YRRU yn Norfolk Street. Cadarnhewch a yw hyn yn golygu na chaniateir i breswylwyr adael na dod adref i'r stryd o fewn yr amseroedd arfaethedig? Os mai dyma yw'r achos, mae'n afresymol."

Caniateir i unrhyw ymwelwyr dilys sydd eisoes o fewn y parth pan fydd yr amseroedd cyfyngedig yn dechrau i barhau i barcio eu car o fewn y parth fel bo'r angen, neu i adael y parth, ond ni chaniateir iddynt fynd i mewn i'r parth tra bo'r cyfyngiadau'n berthnasol.

Unwaith y rhoddir y cynllun ar waith, bydd yr Awdurdod Lleol yn asesu ac yn monitro'r cynllun, ar y cyd â'r Ysgol a bydd ymweliadau a'r safle yn cael eu cynnal yn ystod yr amseroedd gwaharddedig i asesu effaith y cynllun. Os nodir materion diogelwch ffyrdd ychwanegol wrth fonitro'r cynllun hwn, bydd y materion yn cael eu cyfeirio at dîm y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig i ymchwilio i benderfynu a oes angen cyfyngiadau ychwanegol.

“Er fy mod yn deall bod diogelwch plant fydd yn mynd i mewn ac allan o'r ysgol o'r pwysigrwydd mwyaf, rwy'n teimlo bod y cyfyngiadau a awgrymir i mewn ac allan o'n stryd dros ben llestri a byddant yn effeithio ar y preswylwyr sy'n byw yno. Yn ystod y mis diwethaf, roedd achosion ble y byddai ffrindiau, teulu a chontractwyr wedi cael dirwy pe byddent wedi gyrru i mewn i'r stryd ble mae ein tŷ ni. ”

Ni fydd trwyddedau ymwelwyr a masnachwyr / gyrwyr dosbarthu yn cael trwyddedau a bydd yn rhaid iddynt wneud trefniadau amgen.

Caniateir i unrhyw ymwelwyr/gweithwyr/gyrwyr faniau sydd eisoes o fewn y parth pan fydd yr amseroedd cyfyngedig yn dechrau â hawl i barhau i barcio o fewn y parth fel bo'r angen, neu i adael y parth, ond ni chaniateir iddynt fynd i mewn i'r parth tra bo'r cyfyngiadau'n mewn grym.

Os yw preswlydd yn defnyddio car llog neu gerbyd arall nad yw wedi'i gofrestru i'w gyfeiriad, byddant yn dal i allu gwneud cais am drwydded, ar yr amod y gallant gysylltu'r cerbyd hwnnw â'u cyfeiriad (er enghraifft trwy ddarparu copi o'r cytundeb llogi) .

Bydd manylion pellach am sut i gofrestru cerbyd yn cael eu rhyddhau os caiff y cynllun y golau gwyrdd.

Er mwyn ystyried yr achos, hoffwn wybod beth yw cyfeirnod data 2006-2011 o'r ffigurau yswiriant? Rwy'n gofyn hyn gan fy mod yn ei chael hi'n anodd iawn i dderbyn y ffigurau a ddyfynnir:

"Bod dros hanner miliwn o wrthdrawiadau wedi digwydd o amgylch ysgolion yn y DU ac o ganlyniad, dros 1,000 o blant yn cael eu hanafu bob mis".

O ystyried bod y cynnig yn seiliedig ar y data hwn, hoffwn wybod sut mae diffinio "o amgylch ysgolion" os gwelwch yn dda?

Hoffwn gael eglurhad - a ydych chi'n golygu hanner miliwn o ddamweiniau ceir y mis neu rhwng 2006 a 2011"?

Yn fwy na dim, hoffwn wybod faint o wrthdrawiadau ceir oedd y tu allan i Ysgol Gynradd Lansdowne Road yn ystod y cyfnod hwn ar Norfolk Street, sef y cul de sac a'r prif fan mynediad? Faint o blant gafodd eu hanafu, eto ar Norfolk Street y mis neu yn ystod y cyfnod hwn?

Rydych chi'n cynnig gosod camerâu ar y stryd a chosbi pobl am eu defnyddio o fewn amseroedd agor a chau'r ysgol. NID yw hyn yn ystyried amrywiadau lleol unigol a'r unig beth ydyw yw polisi cyffredinol fyddai'n cael ei orfodi ar bawb. Mae'n ffordd arall o CEISIO CAEL HYD YN OED MWY O ARIAN GAN Y RHEINI SY'N GYRRU trwy gamerâu traffig.

Faint o blant a anafwyd oherwydd palmentydd simsan a rhodfeydd gwael !!!!!

Bydd y referniw yn enfawr os aiff hyn yn ei flaen - ble / sut y bydd yr arian hwn yn cael ei wario, a fydd yn cael ei neilltuo neu a fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pa bynnag wasanaeth o adrannau niferus y Cyngor sydd mewn trafferthion y flwyddyn honno?

Sut ydw i'n gwybod nad oes yna 30 damwain yn Llundain am bob damwain yng Nghaerdydd. ”

Daw'r data a ddyfynnwyd gan gorff ymchwil Dadansoddi Diogelwch Ffyrdd (RSA) ar y cyd a Chwmni Yswiriant Cerbydau Axa. Yn y DU yn ystod cyfnod o chwe blynedd rhwng 2006 a 2011, digwyddodd 557,200 o wrthdrawiadau cerbydau a chafodd 85,814 o blant eu hanafu ar ffyrdd o fewn radiws o 500 metr o gatiâu ysgol. Mae hyn yn cyfateb i 1,190 o blant yn cael eu hanafu bob mis.

Dengys cofnodion y cyngor y bu 6 gwrthdrawiad ar y ffordd rhwng 2013 a 2017 o fewn radiws o 100 metr o gatiâu Ysgol Lansdowne, gan gynnwys dau wrthdrawiad difrifol.

Mae graddau presennol y cyfyngiad yno oherwydd y pryderon diogelwch a achosir gan gerbydau yn gwneud symudiadau cymhleth neu'n bacio ar hyd strydoedd bach ger nifer fawr o blant ysgol.

Y gobaith yw y bydd lleihau nifer y cerbydau modur o amgylch yr ysgol nid yn unig yn gwella diogelwch, ond yn lleihau llygredd aer ac yn hyrwyddo teithio cynaliadwy. Bydd yr effaith a gaiff cyflwyno'r Stryd Ysgol yn cael ei monitro'n agos trwy gydol y cyfnod arbrofol o18 mis.

Isod mae'r sylwadau a ddaeth i law yn ystod y cyfnod ymgynghori sydd o blaid y cynnig:

"Deallaf eich bod yn ceisio rhoi'r cynllun hwn ar waith er mwyn cadw plant yn ddiogel ac rwy'n ei gefnogi 100%. Rwyf wedi ymladd ers blynyddoedd i atal nifer y cerbydau gan rieni eu hunain rhag dod i mewn i'r stryd rhag achosi perygl i'w plant. "

"Rwy'n deall bod diogelwch plant sy'n dod yn ôl ac ymlaen i'r ysgol o'r pwys mwyaf."

"Mae'r hyd amser bob bore a phrynhawn yn llawer mwy derbyniol fel preswlydd sy'n byw yn Norfolk Street

fodd bynnag;

(1) Beth am ymwelwyr sy'n aros dros nos yng nghartrefi preswylwyr sy'n defnyddio trwydded ymwelydd yr ydym wedi'i phrynu? A yw'n rhesymol o'n safbwynt ni i ddisgwyl iddynt orfod codi a symud eu ceir erbyn 8.30 yn y bore a'u symud eto erbyn 2.45 yn y prynhawn pan fyddant wedi'u parcio'n ddiogel heb achosi unrhyw berygl i blant?

(2) Beth am ymwelwyr a theuluoedd i gartrefi preswylwyr sy'n cyrraedd dyweder 1.00pm ac yn bwriadu aros trwy'r dydd gan ddefnyddio trwydded ymwelwyd? A oes disgwyl iddynt symud eu car a pharcio yn rhywle arall er y byddai eu car wedi'i barcio'n ddiogel heb achosi unrhyw berygl i blant?

(3) Rwy'n dibynnu ar deulu a ffrindiau'n gallu cyrraedd ac ymweld heb unrhyw gymhlethdodau i'm casglu ar gyfer apwyntiadau neu drefniadau cymdeithasol neu i ymweld â mi yn fy nghartref i gael cwmni a chymorth

(3) A fydd yn rhaid i bob deiliad bathodyn glas i'r ysgol brofi gyda thystiolaeth ffotograffig fod y bathodyn yn perthyn iddynt fel nad oes unrhyw gamddefnydd o fathodynau i gael mynediad i'r stryd?

Rwy'n deall eich bod yn rhoi'r cynllun hwn ar waith er mwyn sicrhau diogelwch plant ac rwy'n ei gefnogi 100%. Rwyf wedi ymladd ers blynyddoedd i atal nifer y cerbydau gan rieni eu hunain rhag gyrru i mewn i'r stryd ac achosi perygl i'w plant eu hunain. Fodd bynnag, a oes yna ffordd arall y gallwch roi pas SZ fel pas ymwelwyr y gallai cerbyd gorfodi ei adnabod. O'm rhan ni y preswylwyr, byddai hyn yn ffordd o sicrhau nad yw ein bywydau'n cael eu gorfodi gan y trefniadau hyn a'n bod yn cael ein cyfyngu gan rieni sy'n rhy hunanol i ystyried diogelwch eu plant eu hunain. ”

Caniateir i unrhyw ymwelydd sydd eisoes yn y parth pan fydd yr amseroedd cyfyngedig yn cychwyn aros yn y parth fel bo'r angen, neu i adael y parth, ond ni chaniateir iddynt gael mynediad i'r parth tra bo'r cyfyngiadau ar waith.

Mae'n rhaid i bob deiliad bathodyn glas ddarparu tystiolaeth i gadarnhau eu bod yn gymwys ac mae'n rhaid iddyn nhw ddarparu copi o fathodyn dilys ynghyd â thystiolaeth sy'n eu cysylltu â'r ysgol. Yna bydd pob cais yn cael ei adolygu gan un o Swyddogion y Cyngor er mwyn sicrhau bod y dystiolaeth a ddarperir yn foddhaol. Gan y bydd y trwyddedau'n rhithwir mae hyn yn caniatáu i dimau gorfodi'r Cyngor fonitro unrhyw gamddefnydd a dirymu unrhyw drwydded y nodir ei bod yn cael ei defnyddio'n anghyfreithlon.

Isod ceir sylwadau ychwanegol a ddaeth i law yn ystod y cyfnod ymgynghori ynghylch materion eraill a gododd o'r ymgynghoriad:

Mater - Sut fydd y cynllun newydd yn cael ei orfodi?

“Mae angen gorfodi parcio preswylwyr hefyd yn ystod amseroedd ysgol gan fod hyn yn aml yn cael ei ddiystyru'n llwyr gan ychwanegu at y broblem.”

Treial 18 mis yw hwn ac yn ystod yr amser hwn, bydd posibiladau o ddadleoli yn cael eu monitro'n agos. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r tîm gorfodi parcio i fonitro parcio anghyfreithlon o amgylch yr ysgolion hyn trwy gydol y treial ac yn addysgu / rhoi dirwyon i droseddwyr. Mae hyn hefyd yn rhan o ymdrech ar y cyd gyda'r ysgolion i hyrwyddo dulliau teithio cynaliadwy ac ymdrech ar y cyd i leihau'r orddibyniaeth ar geir gan y rheini sy'n mynd i'r ysgolion yn gyffredinol.

Os nad yw cerbyd yn cydymffurfio â'r cynllun neu'r Gwahardd Gyrru, gallent fod yn destun Rhybudd Tâl Cosb lle bydd Swyddog Gorfodi Sifil / Yr Awdurdod yn cyhoeddi'r cyhuddiad hwn i'r perchennog trwy ddefnyddio Car Camera'r Timau Gorfodi Sifil.

Pe bai problem barhaus mewn lleoliad, gallai'r Cyngor ystyried cyflwyno camera gorfodi sefydlog.

Mater - Pwy fydd yn cael ei eithrio?

“Mae eich cynnig yn nodi bod cerbydau yn cael eu gwahardd o fynd i mewn neu YRRU yn Norfolk Street. Allwch chi gadarnhau a yw hyn yn golygu na chaniateir i BRESWYLWYR adael na dod adref i'r stryd o fewn yr amseroedd a gynigir? Os yw hyn yn wir, mae'n hollol afresymol.”

Beth os oes gennym apwyntiadau?

Mae rhai ohonom yn gweithio sifftiau - a ydych chi'n ein gwahardd rhag dod adref am awr ar ôl shifft brysur mewn ward ysbyty? ”

“Ar 27 Mehefin daeth fy rhieni i ymweld o'r Alban. Fe wnaethant yrru i lawr a chyrraedd am 3pm sydd yng nghanol y cyfnod yn y prynhawn sydd wedi'i gyfyngu. Maen nhw'n ymweld bob cwpl o fisoedd ac yn cyrraedd tua'r amser hwn bob tro. Mae fy Mam yn dioddef o glefyd Alzheimer a theimlaf ar ôl taith 8 awr mewn car ei bod yn annheg iddynt orfod aros y tu allan i'r stryd cyn y gallan nhw yrru neu fel arall, wynebu gael eu cosbi. ”

Fel y nodwyd yn y llythyr a ddosbarthwyd, bydd system drwyddedau ar waith a fydd yn caniatáu i breswylwyr cymwys yrru yn y stryd yn ystod amseroedd cyfyngedig. Bydd angen cofrestru cerbydau sy'n eiddo i breswylwyr gyda'r Cyngor am drwydded a bydd hyn yn eu heithrio o'r cyfyngiad. Bydd manylion pellach ar sut i gofrestru cerbyd yn cael eu rhyddhau os yw'r cynllun yn cael ei gadarnhau.

Dyluniwyd y cyfyngiad i gydbwyso anghenion preswylwyr, mynychwyr ysgolion, gofynion gweithredol yr ysgolion a diogelwch plant. Wrth ystyried pob un o'r uchod, penderfynwyd treialu'r cynllun ar yr adegau a nodir. Fodd bynnag, gan mai treial 18 mis yw hwn, bydd y sefyllfa hon yn cael ei monitro'n ofalus ac ar ddiwedd y treial byddwn yn ystyried ymestyn neu newid yr amseroedd hyn.

Yn dilyn ymgynghoriadau diweddar ar gynnig rheoli traffig, mae'r Cyngor yn paratoui weithredu'r cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun. Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn [www.caerdydd.gov.uk/ Projectautrafnidiaeth](http://www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth) ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'.



Following the recent consultation on a traffic management proposal, the Council is preparing to implement the scheme based on the plan shown. Further details about this consultation are available at cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link.